Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd	**Llinos Madeley**
Dyddiad: Dydd Mercher, 6 Tachwedd 2019	Clerc y Pwyllgor
	0300 200 6565
Amser: 09.15	SeneddPPIA@cynulliad.cymru

Rhag-gyfarfod preifat

(09.15 – 09.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

2 Ymchwiliad i hawliau plant yng Nghymru – sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(09.30 – 10.30) (Tudalennau 1 – 59)

Julie Morgan AC, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Karen Cornish, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Plant a Theuluoedd – Llywodraeth Cymru
David Pearce, Pennaeth y Gangen Plant – Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:
Briff Ymchwil
CYPE(5)-30-19 – Papur 1 – Llywodraeth Cymru
CYPE(5)-30-19 – Papur 2 – 'Cyfarfod mewn blwch' – dadansoddiad o'r canlyniadau
CYPE(5)-30-19 – Papur 3 – Nodyn gan Lleisiau Bach ar y digwyddiad ymgysylltu â phlant ar 10 Hydref

Egwyl

(10.30 – 10.45)

3 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2018-19

(10.45 – 12.00) (Tudalennau 60 – 79)

Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

Rachel Thomas, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus – Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

4 Papurau i'w nodi

12.00

4.1 Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Addysg ynghylch diwygio'r cwricwlwm yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 18 Medi

(Tudalen 80)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-30-19 – Papur i'w nodi 1

4.2 Ymchwiliad i hawliau plant yng Nghymru – Gwybodaeth ychwanegol gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn dilyn y cyfarfod ar 16 Hydref

(Tudalennau 81 – 83)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-30-19 – Papur i'w nodi 2 (Saesneg yn unig)

4.3 Llythyr gan y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Diweddariad ar adroddiad 'Cadernid Meddwl' y Pwyllgor

(Tudalennau 84 – 90)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-30-19 – Papur i'w nodi 3

4.4 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Cyfarwyddiadau diwygiedig ar gyfer darparu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru

(Tudalen 91)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-30-19 – Papur i'w nodi 4

4.5 Llythyr gan Cymwysterau Cymru – Terfynu cymwysterau'r Dystysgrif Her Sgiliau Sylfaen (Ôl-16) a Chenedlaethol (Ôl-16)

(Tudalennau 92 – 95)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-30-19 – Papur i'w nodi 5

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12.00)

6 Ymchwiliad i hawliau plant yng Nghymru – trafod y dystiolaeth

(12.00 – 12.10)

7 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2018-19 – trafod y dystiolaeth

(12.10 – 12.20)

8 Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc – Gwaith dilynol – Trafod yr ymateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Addysg

(12.20 –12.40) (Tudalennau 96 – 174)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-30-19 – Papur preifat 1 – Llywodraeth Cymru

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Hawliau Plant, Hydref 2019

Papur Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Hawliau Plant yng Nghymru sydd wedi cynnwys craffu ar effaith Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae Llywodraeth Cymru yn falch o weld hawliau plant yn cael lle mor flaenllaw yng ngwaith pwysig y Pwyllgor.

Lle nad yw adrannau o'r papur tystiolaeth hwn yn dilyn trefn cylch gorchwyl ymchwiliad y Pwyllgor, rydym wedi nodi pa rai o'r amcanion y maent yn cyfateb iddynt.

Lle canolog Hawliau Plant yng ngwaith Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru draddodiad balch ac ymrwymiad parhaol o ran codi ymwybyddiaeth ac ymgorffori hawliau plant mewn polisïau ac arferion yng Nghymru.

Mae hawliau plant yn sylfaenol i'n prosesau o ddatblygu polisïau, deddfwriaeth a gwasanaethau yng Nghymru ac maent yn sail i'n huchelgais bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf yn y DU i benodi Comisiynydd Plant yn 2001 a gwnaeth fabwysiadu CCUHP fel y sail dros lunio polisïau i blant yn 2004. Hawliau plant sy'n sbardun i raglenni a pholisïau allweddol yng Nghymru.

Natur a chwmpas y Ddeddfwriaeth

Mae Cymru wedi arwain ym maes hawliau plant drwy eu hymgorffori'n gyfreithiol drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[1] (y cyfeirir ato fel 'y Mesur' yng ngweddill y Papur Tystiolaeth hwn). Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud trefniadau deddfwriaethol mor arwyddocaol er mwyn sicrhau lle canolog i hawliau plant.

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Llywodraeth Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)[2] wrth arfer unrhyw rai o'u 'swyddogaethau', gan gynnwys y canlynol:

- Llunio deddfwriaeth newydd arfaethedig;

[1] http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents
[2] https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/

- Llunio polisïau newydd arfaethedig;
- Adolygu, neu newid, polisi a/neu ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes.

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, mae gan Weinidogion Cymru bedair dyletswydd:

- Rhoi **sylw dyledus** i CCUHP wrth arfer swyddogaethau Gweinidogol
- Paratoi **Cynllun Hawliau Plant** sy'n gosod y trefniadau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus
- Cyhoeddi **Adroddiad Cydymffurfio** ar y ffordd y mae'r Gweinidogion wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus, o leiaf bob pum mlynedd (rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi adroddiad bob dwy flynedd a hanner ar hyn o bryd)
- Cymryd camau priodol i **hybu dealltwriaeth o CCUHP ymhlith y cyhoedd**

Mae'r Nodyn Esboniadol i'r Mesur yn esbonio:

> "*Mae'r ddyletswydd sylw dyledus yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru* ***roi'r pwys priodol*** *yn holl amgylchiadau'r achos i Ran I o'r Confensiwn a'r Protocolau,* ***gan eu cydbwyso â'r holl ffactorau eraill*** *sy'n berthnasol i'r penderfyniad sydd o dan sylw.*[3]

Mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i Weinidogion Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth briodol i CCUHP, gan gydbwyso CCUHP â'r holl ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r penderfyniad dan sylw.

Mae gweddill y papur tystiolaeth hwn yn nodi'r trefniadau cynhwysfawr y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith sy'n deillio o'r Mesur. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod hawliau plant a CCUHP wrth wraidd ein polisïau a'n harferion.

[3] http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/enacted/welsh?view=interweave

Adran 1: Dylanwad y Mesur ar brosesau gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru[4]

Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ei hymrwymiad i hawliau plant drwy arwain y ffordd a'u hymgorffori'n gyfreithiol drwy'r Mesur. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i fabwysiadu dull deddfwriaethol o'r fath.

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP, ni fwriedir iddo ragnodi canlyniadau polisi. Mae'r broses o roi sylw dyledus i CCUHP wedi'i phennu'n fwriadol ar lefel genedlaethol ac mae'n cynnig fframwaith cadarn ar gyfer pob penderfyniad, gan gynnwys polisïau a deddfwriaeth. Mae hyn yn golygu bod holl weithgarwch y llywodraeth yn rhan o'r fframwaith hwn ac felly nid oes angen ailadrodd y ddyletswydd i roi sylw dyledus ar wyneb darnau diweddarach o ddeddfwriaeth. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â darn sylweddol o waith i ystyried opsiynau yn y dyfodol i ddwyn cyfrifoldebau'r Llywodraeth ynghyd er mwyn sicrhau hawliau dynol i bob grŵp o'r boblogaeth, gan osgoi'r angen i fabwysiadu dull gweithredu tameidiog ar draws sawl darn gwahanol o ddeddfwriaeth.

Mae Gweinidogion yn ymwybodol o'u dyletswydd i roi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant a CCUHP. Mae canllawiau ar gynghori Gweinidogion ar gael i swyddogion, gan gynnwys eu rhwymedigaethau mewn perthynas â rhoi sylw dyledus i CCUHP fel rhan o'r broses o lunio polisïau. Mae'r gofyniad hwn yn gymwys ym mhob rhan o Llywodraeth Cymru, nid dim ond y meysydd y gellid ystyried bod ganddynt gysylltiad amlwg â pholisïau sy'n ymwneud â phlant.

Pwysigrwydd ac effaith Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant

Mae hawliau plant wedi'u hymgorffori yng nghyfraith Cymru. Mae hyn yn golygu, pryd bynnag y defnyddiwn unrhyw rai o'n pwerau i wneud penderfyniad ei bod yn ofynnol inni ystyried yr effaith ar blant a phobl ifanc.

Er mwyn sicrhau bod swyddogion yn helpu Gweinidogion i gydymffurfio â'u dyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn helpu Gweinidogion i roi sylw dyledus i CCUHP yn unol â'r Mesur.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn nodi'n glir y broses y dylai swyddogion ei dilyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â phroses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i roi sylw dyledus a sut i roi cyngor sy'n caniatáu i Weinidogion roi ystyriaeth gytbwys i faterion, gan gynnwys sut mae erthyglau CCUHP wedi cael eu hystyried.

[4] Noder bod yr adran hon o'r papur yn ymdrin â'r materion canlynol a nodwyd o gylch gorchwyl ymchwiliad y Pwyllgor: dyraniadau ariannol, mesurau gweithredu cyffredinol, y sylw dyledus sy'n cael ei roi i CCUHP yn ymarferol, Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu defnyddio fel adnodd ystyrlon, prosesau ymgorffori effeithiol mewn portffolios.

Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant er mwyn cynghori Gweinidogion ar effaith bosibl polisïau, rhaglenni neu ddeddfwriaeth ar blant a phobl ifanc, fel y gellir ystyried hyn wrth wneud penderfyniadau. Maent yn helpu i dywys swyddogion ac yn helpu Gweinidogion i wneud penderfyniadau ynglŷn â pholisïau, dyrannu adnoddau a gweithredu. Mae'n bosibl y bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn nodi meysydd na fyddent wedi eu hystyried fel arall o bosibl a lle y gellir lliniaru effeithiau ar blant a'u hawliau. Mae proses yr Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn gymharol newydd ac, felly, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adborth ar yr Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant a gynhaliwyd hyd yma. Ein nod yw rhoi dull gweithredu cymesur sy'n helpu i sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant o ansawdd uchel.

Effaith hawliau plant ar ddyraniadau ariannol

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r broses Gyllidebol wedi mabwysiadu dull integredig o gynnal asesiadau effaith, sy'n cynnwys ystyried hawliau plant. Mae hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei chyfrifoldeb i ystyried penderfyniadau ynghylch gwariant strategol o safbwynt nifer o ffactorau er mwyn deall eu heffaith.

Mae'r gwaith paratoi ar gyfer y gyllideb eleni wedi cael ei lywio gan ein hwyth maes trawsbynciol â blaenoriaeth, sef y blynyddoedd cynnar, gofal cymdeithasol, tai, sgiliau a chyflogadwyedd, gwell iechyd meddwl, datgarboneiddio, tlodi a bioamrywiaeth.

Mae pob un o'r meysydd hyn wedi cael eu harwain gan Weinidog – sydd heb unrhyw gyfrifoldeb portffolio uniongyrchol am y maes blaenoriaethol uniongyrchol – sy'n gweithio ar draws y llywodraeth er mwyn sicrhau bod yr holl waith a wnawn mewn gwahanol adrannau yn cael yr effaith fwyaf bosibl, gyda'r adnoddau a fydd ar gael inni yng Nghyllideb 2020-21. Rydym yn cydnabod y meysydd hyn fel y rhai a allai gyfrannu fwyaf at ffyniant a llesiant hirdymor, gan gynnwys yr effeithiau ar lesiant plant.

Ein nod yw cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial. Gwyddom y bydd profiadau unigolion yn ystod eu blynyddoedd cynnar yn chwarae rhan bwysig o ran llywio eu dyfodol ac yn allweddol o ran eu cyfle i fyw bywyd iach, ffyniannus a bodlon.

Mesurau Gweithredu Cyffredinol

Mae'r Mesur yn ddarn blaengar o ddeddfwriaeth sy'n integreiddio CCUHP yng nghyfraith Cymru. Cytunwn â'r cyflwyniad i'r ymchwiliad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod Cymru "has gone further than the UK Government and any other devolved authority in the UK to integrate the Convention in domestic law".

Mae'r Mesur yn bodloni disgwyliadau Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Integreiddio'r Confensiwn mewn cyfraith ddomestig fel mesur gweithredu deddfwriaethol cyffredinol. Daw ymchwil y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i'r casgliad canlynol:

> *"The Measure has added a new basis for judicial review. This means that the Convention may be relied on before a UK court to challenge a decision taken by a Welsh Minister."*[5]

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y Mesur a'r trefniadau ategol yn dylanwadu ac yn effeithio ar brosesau llunio polisi a gwneud penderfyniadau ar y lefel gywir ac yn darparu fframwaith cadarn a phriodol ar gyfer ymgorffori hawliau plant.

[5] The Impact of Legal Integration of the UN Convention on the Rights of the Child in Wales, Dr Simon Hoffman a Sean O'Neill, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc a Sean O'Neill, Plant yng Nghymru, Awst 2018

Adran 2: System Gynhwysfawr o Gymorth a Her i Ategu'r Mesur

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion roi sylw dyledus i CCUHP wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau. Mae'r Mesur yn un radical, pellgyrhaeddol ei gwmpas a'i natur. Ond ni ddylai'r Mesur gael ei ystyried ar ei ben ei hun: nid yw'n gweithredu mewn gwactod. Mae'n rhan allweddol o gymorth a her gynhwysfawr, ehangach, a gynigir er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hymgorffori ym mholisïau ac arferion Cymru.

Cymorth

Gall y rhai sy'n llunio polisïau ac ymarferwyr gael gafael ar gryn dipyn o gymorth drwy hyfforddiant, gwybodaeth ac adnoddau i'w helpu i ddatblygu polisïau a darparu gwasanaethau sy'n ymgorffori hawliau plant:

1) **Hyfforddiant**

Yn ogystal â'r hyfforddiant sydd ar gael yn fewnol i swyddogion Llywodraeth Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu cymorth i sefydliadau proffesiynol drwy hyfforddiant arbenigol gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn darparu hyfforddiant am ddim i sefydliadau megis awdurdodau lleol (gan gynnwys aelodau etholedig), byrddau iechyd, swyddogion cyswllt yr heddlu a Chwaraeon Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth mynediad agored drwy arian grant i'r elusen Plant yng Nghymru.

2) **Gwybodaeth ac Adnoddau am Hawliau Plant**

Darperir gwybodaeth ac adnoddau am ddim i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd drwy wefan Llywodraeth Cymru ar Hawliau Plant a gafodd ei diweddaru'n ddiweddar[6] a gweithgarwch yn y cyfryngau cymdeithasol. I gyd-daro ag achlysur cyhoeddi CCUHP 30 mlynedd yn ôl, mae Llywodraeth Cymru wedi diweddaru'r wefan a'r adnoddau, gan ganolbwyntio'n benodol ar adnoddau dysgu sy'n hygyrch i bob ysgol a sefydliad ieuenctid yng Nghymru.

3) **Cyfranogi – llais plant a phobl ifanc**

Mae Erthygl 12 o CCUHP yn cydnabod hawliau plant a phobl ifanc i fynegi barn am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddinasyddion llawn a gweithredol yng Nghymru y mae eu safbwyntiau yn cael eu hystyried, ac mae wedi cymryd camau cadarnhaol i hwyluso hyn. Rydym wedi ariannu Plant yng Nghymru i ddatblygu Cymru Ifanc, sy'n gweithio gyda grwpiau ieuenctid, fforymau a chynghorau sy'n bodoli eisoes er mwyn dwyn ynghyd eu llais cyfunol. Mae hyn yn amhrisiadwy i Lywodraeth Cymru wrth ystyried deddfwriaeth newydd neu ddatblygu rhaglenni a pholisïau newydd.

[6] https://llyw.cymru/hawliau-plant-yng-nghymru

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda Plant yng Nghymru a Cymru Ifanc i hyrwyddo'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc sy'n adlewyrchu'r ethos sy'n seiliedig ar hawliau sy'n rhan annatod o weithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r nod barcud cyfranogi newydd yn cydnabod cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus sy'n rhagori o ran cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o ddatblygu polisïau, gwneud penderfyniadau a darparu'r gwasanaethau hyn.

Cymru yw'r unig wlad yn y DU hyd yma sydd wedi ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar eu barn am Brexit. Mae'r Senedd Ieuenctid newydd yn cynnig canolbwynt i safbwyntiau pobl ifanc yng Nghymru – yn eu cefnogi i fynegi barn a dylanwadu ar ddadleuon gwleidyddol a phrosesau gwneud penderfyniadau.

Cyngor a Her Allanol

Yn ogystal â'r cymorth hwn i ymgorffori hawliau plant, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth cyngor allanol arbenigol ac yn croesawu her gan y sector o ran cefnogi prosesau o lunio polisïau a darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf. Rydym yn rhoi cyllid sylweddol i'r sector ynghyd â chyfleoedd eang i siarad â Gweinidogion a swyddogion polisi arweiniol er mwyn helpu i sbarduno cynnydd ar hawliau plant:

1) **Comisiynydd Plant Cymru**

Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf yn y DU i benodi Comisiynydd Plant (2001). Mae'r Comisiynydd Plant yn chwarae rhan allweddol fel hyrwyddwr annibynnol hawliau plant yng Nghymru ac mae'n helpu i ddwyn y llywodraeth i gyfrif mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy gyhoeddi adroddiad blynyddol. Yn adroddiad 2017-18[7] gwnaed 15 o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Roedd yn dda gan Lywodraeth Cymru dderbyn, neu dderbyn mewn egwyddor, bob un o argymhellion y Comisiynydd[8]. Mae ymateb y llywodraeth yn dangos i ba raddau y mae hawliau plant yn cael eu hystyried o ddifrif gan bob rhan o Lywodraeth Cymru, yn ogystal â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth cynhwysfawr rhwng y Comisiynydd Plant a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn cael nifer sylweddol o gyfleoedd i gynnig cyngor, arbenigedd a her i Lywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r Adroddiad Blynyddol, mae'r Comisiynydd Plant hefyd yn cyhoeddi adroddiadau chwarterol yn nodi ei barn ar y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn erbyn ei hargymhellion.

[7] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/09/Adroddiad-Blynyddol-2017-18.pdf
[8] https://llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-comisiynydd-plant-cymru-2017-2018-ymateb-llywodraeth-cymru

Mae'r Comisiynydd yn cyfarfod yn rheolaidd â Gweinidogion Llywodraeth Cymru er mwyn cael trafodaeth ddilynol ar faterion o ddiddordeb a materion sy'n achos pryder. Ar lefel swyddogol, mae'r Comisiynydd a'i swyddfa yn cymryd rhan mewn nifer sylweddol o grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n helpu i ddatblygu polisïau ac arferion Llywodraeth Cymru. Mae'r Comisiynydd hefyd yn cyflwyno ymatebion ysgrifenedig ffurfiol a datganiadau polisi mewn ymateb i ymgyngoriadau ffurfiol.

Mae fframwaith y Comisiynydd ar gyfer gweithio gyda phlant, '*Y Ffordd Gywir*'[9], yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am ffyrdd o ymgorffori hawliau dynol plant a manteision gwneud hynny. Nod *Y Ffordd Gywir* yw gosod CCUHP wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau ac integreiddio hawliau plant ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau, polisïau ac arferion. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio rhannu a hyrwyddo'r defnydd o *Y Ffordd Gywir* ymhlith partneriaid yn y sector.

2) Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant

Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys amrywiaeth o arbenigwyr o bob rhan o'r sector gydag aelodau o Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, UNICEF UK a Plant yng Nghymru.

Mae'n cyfarfod bob chwarter i gynghori Llywodraeth Cymru ar hawliau plant. Gall roi cyngor i dimau polisïau unigol a chynnig cymorth a her ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mae hefyd wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Hawliau Plant diwygiedig a chyd-gynhyrchu cynlluniau i ddathlu 30 mlynedd ers cyhoeddi CCUHP.

[9] Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru - https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/dull-hawliau-plant/y-ffordd-gywir-2/

Adran 3: Cynnydd wrth ddatblygu hawliau plant a gwell canlyniadau yng Nghymru

Mae'r papur tystiolaeth hwn wedi nodi cwmpas y Mesur a'r trefniadau cynhwysfawr ar waith i'w gefnogi. Bydd ffocws y papur hwn yn awr yn troi at y canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n deillio o'r trefniadau hyn.

Mae'r cyfuniad hwn o gymorth arbenigol a her yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati mewn ffordd gynhwysfawr i ymgorffori hawliau plant a sicrhau gwell canlyniadau i blant a'u teuluoedd. Comisiynodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol adroddiad ar effaith Mesur 2011[10] yn ddiweddar. Daeth i'r casgliad bod Mesur 2011 a'r trefniadau ategol wedi arwain at effaith gadarnhaol, sylweddol ar bolisïau yng Nghymru:

> *"We have no reservations in concluding that the Measure has achieved its objective of embedding the Convention in policy-making in Wales.*
>
> *The due regard duty has established a new framework for policy development, which in turn has resulted in greater attention to, and visibility for, children's rights in policy processes undertaken by Ministers and their officials.*
>
> *In our assessment, the Measure has had a significant impact on the way policy is undertaken by the Welsh Government: it has clearly established the Convention as a reference framework for policy decision-making in Wales."*

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno. Mae'n amlwg bod y dull gweithredu hwn yn dwyn ffrwyth. Ceir tystiolaeth ddiriaethol o hyn, sy'n golygu gwelliannau gwirioneddol o ran hawliau a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru. Ymhlith yr enghreifftiau diweddar mwyaf arwyddocaol o gynnydd mae'r canlynol:

- y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) sy'n cymryd cam pellach o ran ein hymrwymiad i helpu i ddiogelu hawliau plant ac, os caiff ei basio, a fydd yn helpu i roi terfyn ar gosbau corfforol i blant yng Nghymru;
- Bydd fframwaith Cwricwlwm i Gymru 2022 yn rhoi canllawiau i gefnogi dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau ac addysg hawliau dynol;
- Ein hymrwymiad yw ymestyn y bleidlais i bobl ifanc 16 a 17 oed. Mae hyn yn golygu y bydd pobl ifanc 16 a 17 oed yn gymwys i bleidleisio yn etholiadau 2021 y Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol yn 2022.

Gan edrych ymlaen, roedd diogelu cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru yn un o egwyddorion sylfaenol ein deddf arloesol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried llesiant mwy cyffredinol pobl (gan gynnwys plant a phobl ifanc), wrth ddarparu gwasanaethau a meddwl mwy am yr effaith hirdymor.

[10] The Impact of Legal Integration of the UN Convention on the Rights of the Child in Wales, Dr Simon Hoffman a Sean O'Neill, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc a Sean O'Neill, Plant yng Nghymru, Awst 2018

Adran 4: Effeithiolrwydd y Cynllun Hawliau Plant a'r Adroddiad Cydymffurfio diwethaf sy'n dangos y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i roi'r Mesur ar waith yn llawn

Cynllun Hawliau Plant

Mae adran 2 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio Cynllun Hawliau Plant. Mae'r Cynllun Hawliau Plant[11] (y cyfeirir ato fel "y cynllun" yng ngweddill y ddogfen hon) yn nodi'r trefniadau sydd ar waith er mwyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau.

Ei nod yw helpu swyddogion i ddeall a chyflawni eu cyfrifoldebau i gynorthwyo Gweinidogion i gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus a sicrhau y caiff hawliau plant eu hystyried wrth ymgymryd â'u gwaith. Mae'n ddogfen bwysig, sy'n helpu i weithredu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hawliau plant[12].

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio'n agos gyda'n grŵp cynghori arbenigol ar hawliau plant (y Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant[13]) er mwyn datblygu fersiwn newydd o'r Cynllun. Rydym yn rhoi gwerth ar farn arbenigol y Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant a'r sector ehangach ac rydym yn ymrwymedig i gydweithredu, gan weithio gyda rhanddeiliaid yn Llywodraeth Cymru a thu hwnt er mwyn sicrhau bod y Cynllun newydd mor effeithiol â phosibl. Mae adran 3 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol:

- Plant a phobl ifanc;
- Y Comisiynydd Plant (a gynrychiolir ar y Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant);
- Unrhyw bobl neu gyrff eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

Mae'n ofynnol inni hefyd geisio cytundeb y Cynulliad Cenedlaethol cyn cyhoeddi cynllun newydd ac edrychwn ymlaen at gael adroddiad y pwyllgor yn dilyn yr ymchwiliad byr hwn ac ystyried ei argymhellion er mwyn helpu i lunio'r drafft terfynol o'r Cynllun Hawliau Plant ar gyfer ymgynghoriad. Wrth ddiweddaru'r cynllun bwriedir datblygu fersiwn i blant a phobl Ifanc. Disgwyliwn i'r cynllun newydd fod ar waith erbyn gwanwyn 2020.

Adroddiad Cydymffurfio

Mae adran 4 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio adroddiad cydymffurfio[14]. Mae'n rhaid i Weinidogion gyhoeddi adroddiad, o leiaf bob pum

---

[11] http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/GEN-LD9732%20-%20Children%27s%20Rights%20Scheme%202014-22042014-255569/gen-ld9732-e-Cymraeg.pdf
[12] Dylid nodi bod y Cynllun Hawliau Plant yn rhan allweddol o gymorth a her gynhwysfawr, ehangach, a gynigir er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hymgorffori ym mholisïau ac arferion Cymru (fel y nodir yn Adran 2 o'r Papur Tystiolaeth hwn).
[13] Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys arbenigwyr sector o Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, UNICEF UK a Plant yng Nghymru.
[14] http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11444/gen-ld11444-w.pdf

mlynedd, ar sut y maent hwy a'r Prif Weinidog wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus. Yn unol â'n hymrwymiad ehangach i CCUHP, mae Gweinidogion wedi dangos pwysigrwydd hawliau plant i Lywodraeth Cymru drwy ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau canol tymor gael eu cyhoeddi, sy'n newid y cylch adrodd i unwaith bod dwy flynedd a hanner. Mae'r adroddiad cydymffurfio yn nodi sut mae Gweinidogion wedi cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y Mesur, sut maent wedi rhoi'r trefniadau sy'n ymwneud ag Adran 1 o'r Mesur ar waith, y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cymhwyso'r ddyletswydd i roi sylw dyledus at CCUHP yn gyffredinol, a pha effaith y mae wedi'i chael.

Gwnaethom gyhoeddi'r trydydd adroddiad cydymffurfio ym mis Chwefror 2018. Rydym yn hyderus ei fod yn dangos mewn ffordd effeithiol y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i roi'r Mesur ar waith. Drwy baratoi'r adroddiad bu cyfle i symud y tu hwnt i'r geiriau ar y llyfr statud a meddwl am yr hyn y mae'r Mesur yn ei olygu'n ymarferol. Croesawodd Llywodraeth Cymru y cyfle i ddefnyddio'r canllawiau a gyhoeddwyd gan swyddfa'r Comisiynydd Plant *Y Ffordd Gywir*[15] er mwyn adolygu ein gwaith a'n hymrwymiad i CCUHP dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Cafodd yr Adroddiad Cydymffurfio ei strwythuro ar sail pum egwyddor dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant[16], gan ddangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru o hyd i hawliau plant ac annog cyrff cyhoeddus eraill i ddefnyddio'r fframwaith hwn. Yn benodol, mae'r adroddiad cydymffurfio yn rhoi gwybodaeth am weithgarwch Llywodraeth Cymru sy'n anelu at gefnogi hawliau plant. Mae'r adroddiad yn manylu ar y ffordd y mae'r broses o Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i hategu gan nifer o weithgareddau er mwyn hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant a roddir i swyddogion Llywodraeth Cymru, a hyfforddiant a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

---

[15] Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru - https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/dull-hawliau-plant/y-ffordd-gywir-2/

[16] Bwriedir i'r canllawiau gynnig fframwaith ymarferol, yn seiliedig ar CCUHP, er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i integreiddio hawliau plant ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau, polisïau ac arferion. Mae pum egwyddor dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant fel a ganlyn:

- Ymgorffori – integreiddio CCUHP mewn prosesau gwneud penderfyniadau drwy weithdrefnau a chamau gweithredu.
- Cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu – sicrhau y caiff pob plentyn gyfle cyfartal i wneud y gorau o'i fywyd a'i dalentau, ac nad oes rhaid i unrhyw blentyn wynebu cyfleoedd bywyd gwael oherwydd gwahaniaethu.
- Grymuso plant - gwella galluoedd plant fel unigolion er mwyn iddynt allu manteisio ar hawliau yn well, ac ymgysylltu ag unigolion a sefydliadau sy'n effeithio ar eu bywydau, dylanwadu arnynt a'u dwyn i gyfrif.
- Cyfranogi – gwrando ar blant a phobl ifanc ac ystyried eu barn mewn ffordd ystyrlon.
- Atebolrwydd – sef bod awdurdodau yn atebol i blant am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'n cynnwys rhoi gwybodaeth i blant a phobl ifanc a mynediad i weithdrefnau sy'n galluogi i holi a herio penderfynwyr.

Darparu Hyfforddiant Allanol

Dangosodd yr adroddiad gwerthuso ar yr hyfforddiant a ddarperir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar CCUHP fod 1,627 o bobl o wyth gweithlu gwahanol wedi cael yr hyfforddiant rhwng mis Hydref 2015 a mis Hydref 2018.

Mae'r gwerthusiad o'r hyfforddiant wedi bod yn gadarnhaol dros ben – dywedodd 91% o bobl fod yr hyfforddiant o safon ardderchog neu dda iawn. Canfu'r gwerthusiad fod dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o CCUHP wedi cynyddu ymhlith y rhai a gymerodd ran, a nododd eu bod yn teimlo eu bod yn gallu rhoi'r wybodaeth honno ar waith yn ogystal â rhannu eu gwybodaeth â'u cydweithwyr a'u sefydliadau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y contract â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i ddarparu hyfforddiant ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r brifysgol i ddarparu hyfforddiant ar CCUHP a hawliau plant am ddim i bartneriaid yn y sector cyhoeddus.

Adran 5: Pa mor effeithiol y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb ar sail strategol i'r Sylwadau Terfynol

Adroddiad Sylwadau Terfynol 2016

Cyhoeddwyd adroddiad Sylwadau Terfynol y Cenhedloedd Unedig ar 12 Gorffennaf 2016[17]. Ymhlith rhai o'r meysydd allweddol a nodwyd yn yr adroddiad roedd:

- Cyflwyno rhwymedigaeth statudol i gynnal asesiad o'r effaith ar hawliau plant wrth ddatblygu cyfreithiau a pholisïau sy'n effeithio ar blant;
- Y bleidlais i bobl ifanc 16 a 17 oed;
- Sefydlu seneddau ieuenctid cenedlaethol;
- Newid y gyfraith i roi i blant a phobl ifanc yr un diogelwch rhag ymosodiad ag a roddir i oedolion;
- Gostwng lefel y cyllid ar gyfer gofal plant a chymorth i deuluoedd;
- Mynd i'r afael â thlodi plant;
- Buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed, a datblygu strategaethau ar lefelau cenedlaethol a datganoledig

- Ymestyn y bleidlais i bobl ifanc 16 a 17 oed. Mae hyn yn golygu y bydd pobl ifanc 16 a 17 oed yn gymwys i bleidleisio yn etholiadau 2021 y Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol yn 2022;
- Y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) sy'n cymryd cam pellach o ran ein hymrwymiad i helpu i ddiogelu hawliau plant ac, os caiff ei basio, a fydd yn helpu i roi terfyn ar gosbau corfforol i blant yng Nghymru;
-
- Camau gweithredu ymarferol i fynd i'r afael â thlodi. Mae hyn yn cynnwys mesurau fel cyngor ar ddyled a budd-daliadau lles, helpu pobl i gael gwaith neu ddychwelyd i'r gwaith a gwella sgiliau er mwyn helpu unigolion i gamu ymlaen yn y gwaith. Mae Llywodraeth Cymru hefyd o blaid darparu cyflog cymdeithasol mwy hael – gwasanaethau sy'n cyfateb i arian parod sy'n sicrhau bod arian yn cael ei adael ym mhocedi dinasyddion Cymru – drwy raglenni megis cynllun mynediad at y Grant Datblygu Disgyblion, sy'n helpu rhieni i fforddio eitemau cyffredin sydd eu hangen ar eu plant yn yr ysgol. ein darpariaeth gofal plant a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

[17] https://www.unicef.org.uk/babyfriendly/wp-content/uploads/sites/2/2016/08/UK-CRC-Concluding-observations-2016-2.pdf

Adran 6: I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei dyletswyddau yn y Mesur yn cael eu trosi yn waith gan gyrff cyhoeddus a ariennir gennym

Mae Erthygl 12 o CCUHP yn ymwneud â hawliau cyfranogi plant a phobl ifanc. Tybir bod Erthygl 12 yn "egwyddor gyffredinol" yn yr ystyr ei bod yn chwarae rôl sylfaenol i wireddu'r holl hawliau yn y Confensiwn i bob plentyn. Mae UNICEF yn crynhoi Erthygl 12 fel a ganlyn:

> *'Every child has the right to express their views, feelings and wishes in all matters affecting them, and to have their views considered and taken seriously.'*

Mae cyfranogi yn golygu gwrando ar blant a phobl ifanc ac ystyried eu barn mewn ffordd ystyrlon. Mae'n cynnwys eu helpu i fynegi eu barn yn rhydd a chymryd eu safbwyntiau o ddifrif pan fydd penderfyniadau yn cael eu gwneud neu pan fydd camau'n cael eu cymryd sy'n effeithio ar eu bywydau, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Cyfranogiad

Fel gwlad, mae Cymru wedi arwain y gad yn y DU o ran hyrwyddo pwysigrwydd hawliau plant mewn deddfwriaeth, polisïau ac arferion. Cydnabyddir Cymru yn rhyngwladol hefyd, yn enwedig o ran ei gwaith ar gyfranogiad plant o dan Erthygl 12 o CCUHP sy'n sicrhau yr ymgynghorir â phlant a phobl ifanc a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae gwelliannau yn cynnwys cynnydd tuag at ostwng yr oedran pleidleisio yng Nghymru i 16 oed, sefydlu Senedd Ieuenctid ac ymgynghori'n ffurfiol â phlant a phobl ifanc ynghylch Brexit – Cymru oedd yr unig wlad i ymgynghori â phobl ifanc.

Cymru Ifanc

Rydym yn ariannu Plant yng Nghymru i ddarparu Cymru Ifanc - sef llwyfan cyfranogi cenedlaethol i bobl ifanc ymgysylltu â llywodraeth ynglŷn â pholisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae Llywodraeth Cymru am i bob plentyn a pherson ifanc gael cyfleoedd - er enghraifft mewn cynghorau ysgol, fforymau ieuenctid a Cymru Ifanc - i gymryd rhan weithredol mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar lefelau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol yng Nghymru.

Mae Cymru Ifanc yn gweithio gyda grwpiau ieuenctid, fforymau a chynghorau sy'n bodoli eisoes er mwyn casglu llais cyfun plant a phobl ifanc ynghyd i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth, polisïau a rhaglenni. Mae hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd plant a phobl ifanc sydd wedi'u hymylu, sy'n swil, o dan anfantais, sy'n ddi-hyder, neu sy'n byw o'r neilltu.

Y Cyd-destun Cenedlaethol – cefnogi cyfranogiad ledled Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol i awdurdodau lleol ar hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio

arnynt. Yn 2015, diweddarwyd y canllawiau statudol hyn er mwyn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n rhoi cyfranogiad gweithredol pobl a chymunedau wrth wraidd y broses o wella llesiant, yn ogystal â bod yn un o'r pum ffordd o weithio a nodwyd yn y Ddeddf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir bod yn rhaid i ganllawiau statudol gael eu gweithredu ledled Cymru ac y caiff cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau ei ymgorffori mewn darpariaeth brif ffrwd. Ers 2014, mae swyddogion o Lywodraeth Cymru wedi ymweld ag awdurdodau lleol yn rheolaidd er mwyn cael darlun o gyfranogiad drwy ddeall sut mae'r ddyletswydd hon yn cael ei rhoi ar waith yn lleol. Bwriedir cynnal rhaglen arall o ymweliadau yn ystod gwanwyn 2020.

Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

Cafodd y safonau cyfranogiad eu hadolygu a'u hadnewyddu yn 2017 gan bartneriaeth o weithwyr fforwm ieuenctid ac aelodau Cymru Ifanc a'u llywio gan ymgyngoriadau â phobl ifanc. Datblygodd y grŵp gorchwyl a gorffen cenedlaethol nod barcud a phroses hunanasesu newydd a Nod Siarter newydd. Mae'r Safonau yn nodi'r materion allweddol y dylai pob gweithiwr fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r safonau wedi'u hategu gan CCUHP a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru.

Mae'r rhwydwaith yw cynnig fforwm i Gymru gyfan er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a rhannu polisïau, ymchwil, arbenigedd ac arferion gorau ym maes hawliau plant a chyfranogiad ledled Cymru. Mae aelodaeth y rhwydwaith yn cynnwys gweithwyr cyfranogiad plant a phobl ifanc o awdurdodau lleol yng Nghymru yn bennaf. Mae hefyd yn cynnal deialog allweddol â'r rhai sy'n llunio polisïau ac sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn cyfrannu at y broses o roi cyfranogiad a hawliau plant ar waith yn strategol yng Nghymru a dylanwadu arni.

Mae'r rhwydwaith yn fforwm i wneud y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- Rhannu adnoddau ymarferol a hyrwyddo arferion gorau sy'n cefnogi'r broses o roi cyfranogiad a hawliau plant ar waith yn effeithiol yng Nghymru;
- Rhannu arbenigedd ac arferion gorau ym maes hawliau plant a chyfranogiad yng Nghymru;
- Bod yn llais annibynnol dros randdeiliaid proffesiynol a dylanwadu'n strategol ar brosesau datblygu polisïau a gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru;
- Cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ymarferwyr a rhannu gwybodaeth/arferion da cyfranogiad plant a phobl ifanc ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r rhwydwaith hwn am flynyddoedd lawer drwy gynnal y cyfarfodydd a chyfrannu ac arwain trafodaethau am gyfranogiad a'r ffordd y gall y rhwydwaith ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau Llywodraeth Cymru.

Dri deg mlynedd ers cyhoeddi CCUHP

Mae 30 mlynedd wedi mynd heibio ers cyhoeddi CCUHP, sy'n garreg filltir bwysig, a byddwn yn ei dathlu gyda phartneriaid allweddol yn y sector plant, er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd hawliau plant a'n hymrwymiad iddynt.

Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o hawliau plant a CCUHP, rydym yn gweithio gyda'r sector plant i wrando ar farn plant a phobl ifanc drwy lansio ymgyrch i ddathlu 30 mlynedd ers cyhoeddi CCUHP. Fel rhan o'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth, rydym wedi trefnu #childrentakeoverwales, sy'n golygu y bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfle i "gymryd drosodd" mewn amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau mewn lleoliadau gwahanol.

Bydd hyn yn digwydd yn ystod y cyfnod cyn digwyddiad o ddathlu ar 20 Tachwedd 2019. Bydd y digwyddiad hefyd yn dathlu'r sefydliadau sydd wedi ennill y nod barcud ar gyfer safonau cyfranogiad.

Caffael Corfforaethol

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r tîm masnachol i atgyfnerthu prosesau caffael er mwyn sicrhau bod pob contract perthnasol a roddir yn rhoi sylw dyledus i hawliau plant.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn darparu fframwaith llywodraethu i gyrff cyhoeddus wella'r ffordd y maent yn hyrwyddo buddiannau plant a phobl ifanc. Mae'r Ddeddf yn cefnogi ymrwymiadau megis CCUHP ac yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau gwell drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn edrych i'r hirdymor; yn atal problemau rhag codi neu waethygu; yn mabwysiadu dulliau gweithredu integredig a chydweithredol; yn cynnwys pobl o bob oedran – gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Adran 7: I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ar ei dyletswydd i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP ymhlith y cyhoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc

Mae Erthygl 42 o CCUHP yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraethau fynd ati'n weithredol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r Confensiwn, a hynny am fod angen i'r cyhoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc, fod yn ymwybodol o'u hawliau er mwyn eu harfer.

Mae adran 5 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i "Weinidogion Cymru gymryd camau priodol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd (gan gynnwys plant) o CCUHP."

Mae codi ymwybyddiaeth o CCUHP a hawliau plant yn flaenoriaeth sylweddol i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn y sector.

Mae 30 mlynedd wedi mynd heibio ers cyhoeddi CCUHP a bydd Llywodraeth Cymru yn achub ar y cyfle i ddiweddaru'r wybodaeth a'r adnoddau presennol[18] a roddir i'r cyhoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc, ac yn comisiynu ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant[19] i ddatblygu a hyrwyddo'r ymgyrch ac rydym yn datblygu brand newydd a deunydd i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant a CCUHP. Mae cyfres o ddigwyddiadau wedi'u trefnu ac mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol newydd ar Facebook a Twitter wedi'u creu. Bydd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn uniongyrchol yn yr ymgyrch drwy #childrentakeoverWales.

Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddylunio a chynnal y digwyddiad dathlu 30 mlynedd, gan gadeirio, cyd-gadeirio, arwain neu gydarwain cyflwyniadau a gweithdai. Cyn y digwyddiad bydd plant a Phobl Ifanc yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau, gan gynnwys cyfrannu clipiau ffilm byr i'w dangos yn y gynhadledd.

Fel rhan o'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth cynhaliwyd nifer o weithdai cerdd mewn ysgolion, er mwyn helpu i sicrhau bod hawliau plant yn ddilys ac yn berthnasol i blant. Mae plant ac athrawon, gan gynnwys prif weithredwr yr Urdd, sef y mudiad mwyaf i blant yn Ewrop, hefyd wedi cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog er mwyn trafod Hawliau Plant.

Mae gwefan Llywodraeth Cymru ar hawliau plant[20] wedi cael ei hadnewyddu ac aeth yn fyw ym mis Hydref 2019. Mae'n cynnwys dolenni i wefannau pob un o aelodau'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant. Mae hefyd yn cynnwys dolenni i adnoddau hyfforddiant y gellir eu defnyddio mewn ysgolion neu leoliadau ieuenctid eraill. Mae rhagor o hyfforddiant ar gael gan y Comisiynydd Plant a Plant yng Nghymru.

---

[18] [18] https://llyw.cymru/hawliau-plant-yng-nghymru
[19] Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys arbenigwyr sector o Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, Unicef UK a Plant yng Nghymru.
[20] https://llyw.cymru/hawliau-plant-yng-nghymru

CYPE(5)-30-19 - Papur 2

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Hawliau plant yng Nghymru: Cyfarfod mewn blwch – Crynodeb ymgysylltu

Hydref 2019

Y cefndir

Ddeng mlynedd ar hugain ers i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ddechrau casglu llofnodion, mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad byr i adolygu effaith Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Gosododd Mesur 2011 ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP a'i brotocolau dewisol. Mae'r Mesur yn golygu y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod deddfwriaeth, polisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar blant yn cydymffurfio â'u hawliau dynol.

Fel rhan o'r ymchwiliad, roedd y Pwyllgor am glywed gan blant a phobl ifanc ar draws Cymru, yn benodol:

- Pa mor dda mae plant yn gwybod eu hawliau;
- A yw plant yn credu bod ganddynt fynediad at yr hawliau hyn;
- Pa hawliau sydd bwysicaf iddynt.

Cytunodd y Pwyllgor i ddefnyddio'r dull gweithredu isod.

Y dull gweithredu o ran ymgysylltu

Gan ddefnyddio dull o'r enw “cyfarfod mewn blwch”, datblygodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion adnodd i athrawon, gweithwyr ieuenctid ac arweinwyr gweithgareddau ieuenctid i hwyluso sesiwn gweithdy am hawliau plant a chasglu safbwyntiau’r cyfranogwyr. Dyluniwyd yr offeryn i'w ddefnyddio yn lleoliad y

cyfranogwr ac roedd yn cynnwys gweithgareddau ar gyfer pob lefel o ddealltwriaeth o hawliau plant, gwaith y Pwyllgor a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynhaliwyd 45 o sesiynau a oedd yn cynnwys 866 o gyfranogwyr o bum rhanbarth y Cynulliad. Casglwyd tystiolaeth o'r gweithdai drwy arolwg y gallai arweinwyr gweithgareddau ei lenwi ar-lein neu ei ddychwelyd drwy radbost.

Map ymgysylltu

Nod yr adnodd oedd clywed gan ystod mor amrywiol â phosibl o Ddinasyddion Cymru a sicrhau nad dim ond grwpiau a oedd eisoes yn gyfarwydd â hawliau plant roeddem yn gofyn iddynt. Dyluniwyd a hyrwyddwyd yr adnodd fel sesiwn gweithdy ar gyfer pob lefel o ddealltwriaeth o hawliau plant er mwyn sicrhau nad oedd ymatebwyr yn hunanddewis ar sail eu gwybodaeth flaenorol.

Rhannwyd yr adnodd â rhanddeiliaid a oedd eisoes yn rhan o'r ymchwiliad ac roedd ar gael ar wefan y pwyllgor i unrhyw un ei gyrchu a chymryd rhan ynddo. Cysylltwyd â sefydliadau drwy'r timau addysg ac allgymorth ac roeddent yn cynnwys gwasanaethau ieuenctid, pobl ifanc yn cymryd rhan yn ymweliadau addysg ac ymgysylltu â phobl ifanc y Cynulliad, sesiynau allgymorth ac ymweliadau â'r Senedd a’r Pierhead.

Mae'r map isod yn tynnu sylw at ledaeniad rhanbarthol y grwpiau a gynhaliodd o leiaf un sesiwn gweithdy cyfarfod mewn blwch. Cynhaliodd sawl grŵp sesiynau gyda chyfranogwyr ar draws Cymru, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru a Senedd Ieuenctid Cymru. Gallwch weld fersiwn ryngweithiol o'r map hwn yma:

http://nawresearch.maps.arcgis.com/apps/webappviewer/index.html?id=0e913fef0f6d4bdea95c82852de535ae



- Carmarthenshire Youth Council
- Stephens & George Charitable Trust
- 2nd Cardigan Guides
- Bawso-EYST 'Cultures' Youth Club
- CTW
- Caerphilly Youth Forum
- Children's Commissioner for Wales' advisory panels of young people
- Conwy Youth Council
- Cyngor Ysgol Cwm Rhymni
- FutureMinds
- Garth
- Grwp Gwyndy
- Infinity Explorer Scout Unit
- Islwyn Constituency
- LLamau
- Learning for Life
- PeoplePlus Cymru, Port Talbot
- PeoplePlus Cymru, Port Talbot 2
- Police Cadets
- Representatives from all of Wrexham High School Councils
- St Asaph Youth Forum
- The Vale of Glamorgan Right's Ambassadors Project
- Together 4 Children and Young People (T4CYP)
- WYP Mid and West Wales
- WYP North Wales
- WYP South East Wales
- WYP South West Wales
- Willows Youth Club - Merthyr Tydfil
- Wrexham 1st Girl Guides
- Wrexham Senedd yr Ifanc
- Wrexham Youth Justice
- Y5BBPS
- YGC
- YoVo
- Youth Support
- Ysgol Emrys ap Iwan Yr 8 (Enrichment day)
- Ysgol Gyfun Gwynllyw

Y canlyniadau

Er mwyn llunio'r crynodeb ymgysylltu hwn, cynhaliwyd dadansoddiad o set ddata gyflawn; gellir priodoli'r holl ddata i ymatebion unigol a gellir dadansoddi'r data ymhellach drwy adolygu'r canlyniadau cychwynnol.

Tynnwyd canfyddiadau allweddol a themâu cyffredinol drwy ddefnyddio cwestiynau penodol a ofynnwyd yn yr arolwg. Dewiswyd dyfyniadau ar y sail eu bod yn dangos themâu sy'n codi dro ar ôl tro ac, felly, yn crynhoi'r sylwadau cyffredinol o'r ymatebion neu os ydynt yn dangos materion allweddol y mae'n rhaid i'r Pwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

Caiff y canlyniadau eu cyfrifo yn ôl nifer y bobl a ymatebodd i'r cwestiwn penodol, nid nifer y bobl a ymatebodd i'r arolwg yn gyffredinol.

1. Faint o'r cyfranogwyr a ddywedodd eu bod wedi clywed am hawliau plant?



2. Faint o'r cyfranogwyr a ddywedodd eu bod wedi clywed am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn?



3. Pa mor hen oedd y cyfranogwyr pan gawsant wybod gyntaf am eu hawliau?



4. O ble y daeth y cyfranogwyr o hyd i'r wybodaeth orau am eu hawliau?



Hefyd, daeth o leiaf un cyfranogwr o hyd i'r wybodaeth orau gan Gomisiynydd Plant Cymru, mewn sesiwn grŵp mewn lifrai neu yn y newyddion.

5. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn credu bod eu hawliau wedi gwella ai peidio, a pha feysydd a oedd yn waeth neu'n well yn eu barn hwy. Codiwyd sylwadau fel rhai negyddol neu gadarnhaol.



Detholiad o sylwadau gan y plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran:

"I didn't understand rights when I was in year one but when I went up to juniors we talked more about them. Being older helps you understand the rights more."

"They are better now but there's always room for improvement."

"Worse: Travel, Education, Support for the Disabilities and to be listen to/ Better: Physical & Mental Health, Safe in my neighbourhood and safe at home."

Detholiad o sylwadau gan arweinwyr y sesiynau:

"Fel grwp cyfa oeddent yn teimlo fod rhan fwyaf o'r hawliau yn cael eu bodloni. Soniodd un aelod o'r grwp yr hoffem mwy o gefnogaeth i unigolion yn ysgol sydd yn cael trafferth adre. - As a group they felt that most of the rights were being met. One member of the group mentioned that we would like more support for individuals in a school struggling at home."

"I first found out about my rights in nursery. I remember they used puppets to explain them to me."

"Schools still not promoting children right so not as many young people know about them, awareness has improved, laws now look at children right,

smacking law helps children rights, primary schools need to know more to educate about children rights."

"8 young people said the session was the first time they had heard of their rights."

"This was their first time learning about their rights so they had no concept of improvement."

"Pupils felt that their rights were being met ok but more could be done. The main overall issue was the feeling that adults were not listening to them and respecting their views."

6. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr bleidleisio dros yr hawl roeddent yn credu y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy yn ei chylch. Rhoddwyd yr opsiynau isod iddynt:



Eu hawl i **iechyd corfforol ac iechyd meddwl da** gafodd y nifer fwyaf o bleidleisiau (**179**) a daeth eu hawl **i deimlo'n ddiogel yn yr ardal rwy'n byw ynddi** yn ail o drwch blewyn (**178**). Yn agos y tu ôl i'r rhain oedd eu hawl **i deimlo'n ddiogel gartref** (**139**), **i gael fy nghlywed gan bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant** (**137**) a'u hawl **i gael addysg dda** (**123**).

Roedd nifer y bobl ifanc a ddewisodd eu hawl **i gael gafael ar gymorth a chefnogaeth os ydw i'n anabl** (44) a'u hawl **i gael mynediad at deithio** (38) yn debyg i **hawl arall nad yw wedi'i rhestru** (39).

Roedd yr hawliau nad oedd cyfranogwyr yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys yn yr opsiynau'n dod dan y themâu a ganlyn;

- Parch gan eraill;
- Cymorth i fagu eu hyder;
- Cymorth pe bai rhywbeth wedi digwydd iddynt, gan gynnwys cael rhywun roeddent yn ymddiried ynddo i siarad ag ef;
- Preifatrwydd;
- Mynediad at eu dewis iaith

Sylwadau gan gyfranogwyr yn awgrymu thema arall neu hawl benodol:

"Hawl i bod diogel ar lein - Right to be safe online"

"Diogelwch economaidd - economic security"

"Do not bully: Article 23"

"To be happy we need to try to stop bullies"

"The right to a clean environment"

"Your right to use your own language and celebrate your own culture and religion"

"Encourage rights in school"

"Rights should be a set subject in school"

"Access to post-16 education"

"Transport is a big issue"

"Improve the whole curriculum so it's more like the curriculum they have in Sweden and Norway"

"Article 40 - your right to legal help if have been accused of a crime"

"lgbt - article 2 relating to not being treated differently because of who they are"

"The right to practice my own religion"

"Seeing family if they do not live with you"

"Right to have fun"

7. A oedd unrhyw beth arall y dywedodd y cyfranogwyr y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud ar eu cyfer?

Sylwadau gan y cyfranogwyr:

"Maybe Welsh Government could use a mascot to promote rights because our school mascot Rico the Racoon helped me learn so much more about rights."

"Improving transport because some children are missing school and appointments".

"Better policing."

"We need the right to vote (article 12). You should introduce the UNCRC and rights into the school curriculum. "School trips - I can't afford to go to trips and I am missing out."

"I think you shouldn't be charged to go on a school trip since you have the right to have a break from working in school."

Sylwadau gan arweinwyr y sesiynau:

"Roedd rhai aelodau wedi derbyn hyfforddiant hawliau plant trwy'r fforymau ac eraill heb glywed am hawliau plant o gwbl- amrywiad eang o ran dealltwriaeth - Some members had received training on children's rights through the forums and others had not heard of children's rights at all - a wide variety in understanding."

"Our pupils felt that the welsh government should make it compulsory for all schools to be rights respecting school and the teaching of rights should be in the curriculum."

"The group felt that generally there was a lack of information available to them about their rights in any tangible sense, and that they didn't really feel part of the community."

"Make them more aware of these rights at an early age."

"The government should involve young people from low income backgrounds in decisions effecting them and their community. Provide more money for schools to provide a better education and to stop cutting the funding on youth centres."

"They were amazed at the amount of rights and what they covered."

"The group believe that the Welsh Government and Assembly are doing their best to ensure children know their rights, and they found the session very beneficial."

"A number of the group highlighted the issue of being protected from exposure to drugs. They felt that not enough was being done. One young person mentioned about a local shop knowingly selling Vapes to underage children. Also more work need to be done to educate adults on children's rights."

"Improve the right to be safe because feeling safe is important."

"Many pupils talked about how poverty affected them and they felt that money shouldn't be a barrier to learning. They suggested all school trips be free."

"Welsh Government should reach out to young people more. For decision makers to attend groups such as the T4CYP mental health forum to meet with and listen to young people's views along with sharing their work in young person friendly language."

"YP felt that bullying was a major issue in and out of school."

"They didn't feel safe and would like more children and youth provisions in place to report to."

8. A oedd unrhyw beth arall roedd arweinwyr y sesiynau am i ni ei wybod am syniadau'r cyfranogwyr ar hawliau plant:

Sylwadau gan y cyfranogwyr:

"We have the right to speak Welsh or English in our country"

"We have the rights to be proud of who we are"

"100% in school - my mother does not understand"

"Boys and girls shouldn't be split up because it's sexist"

"The right to special help if you have been abused, hurt or neglected, or lost a parent"

""We have the right to be looked after properly if we don't live with our family. We have the right to stand up for ourselves and say no to things we don't like"

"No-one care's about young people aged 16-17 … only my YJS (Youth Justice Services) Officer listened to me, Children's Services didn't"

"Police stations have closed, so police not there unless there is a problem. Drugs openly being sold - dealers don't bother to hide it - more people carrying knives to feel protected - more police presence needed"

Sylwadau gan arweinwyr y sesiynau:

"A few of the students voiced concerns over Brexit and that recent behaviour of UK politicians and world leaders is putting them off taking an interest in politics."

"Angen mwy o waith i hysbysebu'r ffairth bod yna hawliau i bobl ifanc. Mwy o waith gyda rhieni i annog nhw i drafod gyda'u phlant - More work needed to publicise the fact that there are rights for young people. More work with parents to encourage them to have discussions with their children."

"The group are part of a resilience programme for low confidence / young people with social / emotional needs. They felt their rights were sometimes adhered to but not always with respect for them, particularly in schools."

"Our group YoVo which stands for "your voice matters" are Children's Rights Ambassadors for the looked after community in Neath Port Talbot. The Ambassadors' champion the UNCRC within this community and the wider community. They would like more to be done for children in care especially when receiving information and having their views listened to and acted upon. They would like to see a focus on their right to see their family and more support to complain if they aren't getting their rights."

"More session to know about your rights, more should be done in schools to promote young people rights."

"Young people thought that not being able to speak to each other in class or use the toilet can be against their rights. Disabled children are not supported due to cuts, they felt this was unfair."

"This was an excellent resource and well worth participating in. We need more opportunities to respond to the Welsh Government. By far the Right our group wanted the Government to work more on was listening to young people."

"Free or VAT free sanitary protection; more on rights under Articles 10 (contact with parents) and 15 (freedom of association), right to privacy."

"YP have many concerns, biggest growing drugs problem and groups of youth."

Lleisiau Plant yn Cael eu Clywed

Cyfarfu ymchwilwyr ifanc o Ysgol Awel y Mor, Castell-Nedd Port Talbot ac Ysgol Pant Y Rhedyn, Llanfairfechan ac Aelodau o Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o Ymchwiliad byr y Pwyllgor ar yr effaith o'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011



Sut mae hawliau wedi dy helpu di?

Adref

Mae gen i'r hawl...

I gael fy mwydo'n iawn
I siarad
I chwarae a chael hwyl
I fynd y tu allan
I wneud fy ngwaith cartref
Er mwyn i'm rhieni edrych ar fy ôl
I ymlacio

'Helpu i'r dyfodol i oroesi'

Cymuned

Mae gen i'r hawl...

I fod yn ddiogel
I chwarae y tu allan
I gael ffrindiau
Siarad allan ac aros yn ddiogel
Mae ein lleisiau'n cael eu clywed a'u cymryd i'r meddwl
Rwy'n cael dweud fy nweud
Cyfarfodydd rheolaidd Mae'r athrawon wedi fy helpu i sylwi pa mor bwysig yw hawliau i fywyd bob dydd

'Wedi helpu fi i sylwi y pethau iawn i wneud yn fy mywyd neu gael fy amddiffyn rhagddynt'

Ysgol

Mae gen i'r hawl....

I gael ffrindiau
I siarad â llais y disgybl
I fod yn iach
Cael hwyl
Cael gwrandawiad gan yr athrawon
I ddysgu
I redeg o gwmpas
Gwneud gwaith cartref
Mynd allan am awyr iach

'Mae hawliau wedi fy helpu lot.'

Beth all eich helpu i sicrhau eich bod yn gallu derbyn eich hawliau?

Adref

OS ydych chi'n poeni dywedwch wrth rywun rydych chi'n ymddiried ynddynt
Gall rhieni wrando arnoch chi trwy helpu
Siarad â phobl nad ydyn nhw'n gwybod eu hawliau
Gwneud pobl yn ymwybodol
Mae rhieni'n cymryd rhan ac athrawon

Ysgol

Dilynwch reolau'r ysgol Drwy athrawon a ffrindiau yn eich cefnogi chi drwodd
Ffrindiau i'ch helpu chi i fynd trwy fywyd yn haws
Rhoi posteri i fyny am hawliau plant
Sicrhewch fod oedolion yn gwybod amdanynt
Gall athrawon helpu gydag unrhyw beth yn yr ysgol neu gartref
Athrawon a chyfrifiaduron

Cymuned

Mae'r heddlu'n helpu i'ch cadw chi'n ddiogel
Y dref neu'r ardal y gallwn roi posteri neu ledaenu'r gair a gall y gymuned ddysgu hawliau
Helpwch yr amgylchedd
Gwneud pobl yn ymwybodol gyda phosteri a lleisiau
Dysgu hawliau plant i fusnesau

Sut mae hawliau wedi eich helpu i gyflawni'r newidiadau rydych chi wedi'u gwneud / ceisio eu gwneud yn eich prosiectau Lleisiau Bach?

- Mae pobl nawr yn gwrando arnon ni Mae'n newid i gael gwrandawiad Mae pobl yn gwrando arnom ac yn gadael inni gael effaith
- Mae rhieni ac athrawon yn cymryd rhan
- Mae athrawon a rhieni bellach yn cymryd rhan
- Bydd pobl hŷn neu bobl gyffredinol yn cymryd rhan ac mae rhieni ac athrawon yn help mawr hefyd
- Mae gen i hawl i gael gwrandawiad ar Erthygl 12
- Mae gen i hawl i ddysgu gwybodaeth Erthygl 13

Pam ei fod yn bwysig i fod yn rhan o brosiect fel hwn?

- Oherwydd bod pobl ifanc yn addasu i newidiadau yn well ac yn gwrando ac yn sefyll allan
- Rydych chi'n dysgu pethau newydd
- Gallant gael hwyl a byddant yn dysgu mwy ac yn gweithio gyda'i gilydd
- Rhannwch eich syniadau Cael hwyl
- Amser gyda'ch ffrindiau Maen nhw'n gwrando ar yr hyn rydych chi'n ei ddweud
- Maen nhw i gyd yn rhoi cynnig ar weithio gyda'i gilydd
- Er mwyn helpu'r prosiect i gael sylw i gael effaith
- Felly gallwn helpu'r amgylchedd

Daeth Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i gyfraith Cymru, gan ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi 'sylw dyledus' i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau.

Mae tîm Lleisiau Bach Little Voices a Ariennir gan y Cronfa Gymuned Y Loteri Genedlaethol ym Mhrifysgolion Abertawe a Bangor yn defnyddio'r Confensiwn i danategu eu gwaith gyda grymuso 'Plant fel Ymchwilwyr'

Mewn prosiectau olynol dros 10 mlynedd mae tîm Lleisiau Bach Little Voices wedi bod yn cefnogi plant fel ymchwilwyr mewn cymunedau ledled Cymru.

Rydym wedi datblygu ffordd unigryw o alluogi plant i archwilio a dewis eu materion eu hunain ac ymgysylltu, ar sail cydfuddiant fel dinasyddion, â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau oedolion i sicrhau newid.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4.1

CYPE(5)-30-19 – Papur i'w nodi 1

Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Addysg yn dilyn y sesiwn graffu ar ddiwygio'r cwricwlwm a gynhaliwyd ar 18 Medi. Yn ystod y sesiwn, cytunodd y Gweinidog Addysg i ddarparu rhestr o'r Ysgolion Arloesi. Mae rhestr o'r ysgolion hyn ar y blog yn: https://cwricwlwmigymru.llyw.cymru/2019/04/11/diolch-yn-fawr-ymlaen-a-ni/

CYPE(5)-30-19 – Papur i'w nodi 2

Examples of different models of National Mechanisms for Implementation, Reporting and Follow-up (NMIRF) See OHCHR Guide on NMIRFs

- **Portugal**: The inter-ministerial National Human Rights Committee created in 2010 is responsible for intergovernmental coordination with the aim of promoting an integrated approach to human rights policies. The Committee coordinates all governmental action on human rights including implementing the international and regional reporting obligations of Portugal to treaty bodies, special procedures, UPR and the Council of Europe. The Committee is chaired by the Ministry of Foreign Affairs. The Human Rights Division within the Ministry acts as the Committee's permanent secretariat. All ministers are represented on the Committee, in some cases at Secretary of State level. The National Statistics Office is also a member. The Committee is supported by a network of human rights focal points in ministries. It meets at least three times a year at plenary level and as needed at working group level. At least one of these three plenary meetings must be open to civil society.

- In **Belgium**, a team based within the Ministry of Foreign Affairs coordinates all treaty reporting and provides oversight on follow-up to recommendations, which are clustered. It brings together human rights focal points in all government departments and throughout devolved administrations. The Group meets every six months.

- **Scotland:** The Scottish Equalities and Human Rights Committee's report (November 2018) called on the Scottish Government to urgently establish a Scottish NMIRF. In December 2018, the First Minister's Advisory Group also recommended a Scottish NMIRF. It specified the 'body would contribute to national dialogue on the promotion of best practice including with parliaments, the judiciary, civil society and the general public. Best practice would be for the National Mechanism to be a Scottish Government body with its own separate structure, staffing and budget and accountable to the relevant Scottish Government Minister…' Core functions include:
    1. Coordinating Scottish Government engagement with European and UN human rights systems, including reporting and implementation of recommendations in the devolved context.
    2. Monitoring the UK Parliament and reporting to the Scottish Government, Parliament and the public on any developments as regards the continued effect of rights "returned" from the EU to the UK Parliament.
    3. Monitoring the EU and reporting relevant rights developments to the Scottish Government, Scottish Parliament and the public for

consideration of adapting any such developments within devolved areas of competence.

A taskforce taking the recommendations forward is currently being established and we have advocated for the Commission to sit on it.

- **Georgia**: The Georgian 'Human Rights Council', set up to adopt and oversee the implementation of Georgia's two-year human rights action plans, is a high-level ministerial inter-agency coordination structure chaired by the Prime Minister. It consults with five local human rights NGOs, UN representatives, Council of Europe, the EU, and the Office of the Public Defender of Georgia (Georgia's NHRI). It meets annually to discuss priority human rights concerns for the year ahead, and considers and adopts progress reports on the implementation of the action plans. It is accountable to the Georgian Parliament and submits annual progress reports. During a parliamentary hearing, the Government presents its update. The parliament's Human Rights and Civil Integration Committee prepares a resolution with recommendations addressed to each branch of Government. Implementation of this parliamentary resolution is mandatory. The Council has a permanent secretariat, which coordinates implementation, monitoring and reporting between the designated focal points in all responsible ministries and agencies. It is considering introducing a new software system for NMIRFs developed by OHCHR. This online database will automatically download and cluster recommendations from the UPR, Treaty Bodies and Special Procedures, and enable the Government to set priorities and implementation deadlines.

- **Mexico:** The Directorate for Human Rights and Democracy in the Ministry of Foreign Affairs is responsible for coordinating reporting to UN human rights mechanisms and to the inter-American human rights system. It includes two deputy directorates, each divided into units that have responsibility for producing specific monitoring reports. These units undertake intergovernmental coordination and coordination with parliament, the NHRI, the judiciary and to a lesser extent civil society. The Ministry of Foreign Affairs provides the budget for the Directorate and the activities of the specialised units.

- **Morocco:** The Interministerial Delegation for Human Rights (70-80 staff members), established in 2011, is appointed by the King and reports directly to the Head of Government. The Delegation is responsible for coordinating national human rights policies and for ensuring interaction with international human rights mechanisms. It proposes measures to ensure the implementation of international human rights obligations, prepares periodic national reports to treaty bodies and the UPR, and follows up the implementation of their recommendations, as well as those of special procedures. The Delegation provides support to national

NGOs working on human rights and promotes dialogue with international NGOs.

- **Samoa:** The Samoan Government is currently setting up a NMIRF, an inter-ministerial body to coordinate all reporting and implementation activities related to Samoa's Treaty Body obligations, UPR and UN Special Procedures visits. It is also responsible for coordinating activities related to the signing of further human rights treaties. The NMIRF's terms of reference provide that it consists of a Chair (CEOs of the Ministry of Foreign Affairs and Trade), a Working Group (made up of representatives from different ministries), at least four Focal Points, Consultative Members (representatives from CSOs, the NHRI and the Bureau of Statistics) and is serviced by a Secretariat. The NMIRF's responsibilities include:
    - Clustering Treaty Body recommendations and translating into Samoan;
    - The drafting of an implementation plan for each set of recommendations, within three months of receipt;
    - Consultations on each implementation plan with Government, CSOs and the public, leading to adoption of the implementation plan within six months of receipt of the recommendations;
    - Appointing a drafting committee for each report six months before the deadline.

Eitem 4.3

CYPE(5)-30-19 - Papur i'w nodi 3

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

29 October 2019

Annwyl Lynne

Gwaith dilynol ar ymholiad y Pwyllgor i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru – Cadernid Meddwl

Yn dilyn ein hymddangosiad gerbron y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 20 Mehefin a'r llythyr dilynol ar 15 Gorffennaf, addawom y byddem yn ysgrifennu i'r Pwyllgor i roi rhagor o wybodaeth am nifer o feysydd.

Yn fy niweddariad ar 7 Mai, amlinellom y bwriad i flaenoriaethu buddsoddiadau i wella iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc gyda £7m o gyllid ychwanegol. Byddai £3.2m yn mynd i wella gwasanaethau sy'n cefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc; £1.4m ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i wella cymorth yn y gymuned; a £2.5m i gefnogi'r dull ysgol gyfan o fynd i'r afael â llesiant ac iechyd meddwl emosiynol. Gan ein bod ni bellach wedi cytuno ar ddyraniadau cyllid, yn dilyn cytuno ar gynlluniau buddsoddi iechyd meddwl ehangach yr holl Fyrddau Iechyd Lleol (y Byrddau), rwy'n falch o allu rhoi gwybod i'r Pwyllgor bod y Byrddau wedi buddsoddi £1m arall o'r cynnydd ehangach mewn cymorth iechyd meddwl. Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol sy'n dangos ein hymrwymiad parhaus i sicrhau bod llesiant ac iechyd meddwl ein plant a'n pobl ifanc yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Mae'r buddsoddiad uchod yn cynnwys cymorth i'r byrddau iechyd wneud gwelliannau i ofal sylfaenol Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn dilyn yr adolygiad gan Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Roedd gofyn i'r holl fyrddau iechyd lunio cynlluniau gwella a adolygwyd wedyn gan swyddogion ac Uned Gyflawni'r GIG i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sicrhau bod y camau gweithredu'n cyd-fynd â'r argymhellion yn yr adolygiadau unigol a dderbyniwyd gan y byrddau iechyd.

Er gwybodaeth i'r Pwyllgor, rydym yn darparu adroddiad cenedlaethol Uned Gyflawni'r GIG a luniwyd ar gyfer Lywodraeth Cymru ar wahân, a'r crynodeb o'r cynigion ariannu a dderbyniwyd oddi wrth y byrddau iechyd. Dylai'r Pwyllgor gofio bod y crynodebau'n adlewyrchu'r ceisiadau gwreiddiol ac mae'n bosibl bod y dulliau gweithredu wedi cael eu haddasu ar ôl cael adborth gan swyddogion ac Uned Gyflawni'r GIG. Fel y gwyddoch yn sgil y llythyr i'r byrddau iechyd ar 15 Gorffennaf, rydym wedi gofyn i bob bwrdd iechyd lunio adroddiad ar gyfer ei Fwrdd neu is-bwyllgor priodol. Bydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei rannu â'r Pwyllgor.

O ran cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion mwy cymhleth, cytunwyd y byddem yn darparu rhagor o wybodaeth yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd â rhanddeiliaid allweddol ym mis Mehefin. Roedd y cyfarfod hwnnw'n cynnwys y Comisiynydd Plant, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a swyddogion o'r grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn dilyn y cyfarfod, cytunwyd y dylid sefydlu rhaglen waith gorchwyl a gorffen i ddatblygu datrysiadau a'u rhoi ar waith ar gyfer y garfan fach o blant sydd ag anghenion cymhleth na ellir eu diwallu dim ond mewn lleoliadau iechyd meddwl i gleifion mewnol neu leoliadau diogel / preswyl. Mae'r rhaglen waith newydd hon yn cydnabod bod nifer o ffrydiau gwaith eisoes yn cael eu datblygu yn y maes hwn. Fodd bynnag, cytunodd yr holl randdeiliaid bod angen rhaglen waith arbennig ar gyfer y tymor byrrach i fynd ati'n gyflymach i integreiddio trefniadau comisiynu yn well ar gyfer y garfan fach o blant sydd yn y perygl mwyaf.

Mae adnodd ychwanegol wedi'i neilltuo i sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud ar fyrder ac mae grŵp llywio yn cael ei ffurfio i ddwyn ynghyd y ffrydiau gwaith presennol, gan helpu i gyflawni'r gwaith newydd hwn. Bydd y grŵp yn cael ei gadeirio ar y cyd gan uwch-swyddogion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a bydd yn cynnwys Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, llywodraeth leol a'r Comisiynydd Plant. Nid ydym yn rhagweld y bydd y gwaith yn cymryd mwy na chwe mis ar ôl dyddiad cyfarfod cyntaf y grŵp llywio. Disgwyliaf y bydd y rhaglen waith hon yn nodi datrysiadau a'u hysgogi – rydym wedi egluro nad llunio adroddiad arall i'w ystyried yw'r nod.

Gyda'r bwriad o ehangu capasiti ein hunedau CAMHS haen 4 presennol, mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi lansio ymgynghoriad 4 wythnos ar ddau fanyleb gwasanaeth newydd. Bwriad y manylebau gwasanaeth yw diffinio'n gliriach ofynion y model gofal presennol a chaniatáu i'r gwasanaeth gynyddu ei gapasiti yn ddiogel ac yn effeithiol i ofalu am bobl ifanc â lefelau uwch o gymhlethdod clinigol. Mae'r manylebau gwasanaeth newydd hyn hefyd yn cynnwys cyfres gynhwysfawr o fetrigau ansawdd i ddarparu trosolwg o ddiogelwch, effeithiolrwydd a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth cleifion mewnol CAMHS. Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol yn defnyddio'r dangosyddion ansawdd hyn i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth yn y dyfodol ac i ddatblygu a hwyluso'r gwaith o feincnodi yn erbyn gwasanaethau eraill.

Rydym hefyd yn gallu cadarnhau bod y gwaith cyfalaf yn Nhŷ Llidiard wedi'i gwblhau.

Ers inni ymddangos gerbron y Pwyllgor ym mis Mehefin, rydym wedi cytuno ar £2m o fuddsoddiad ychwanegol ar gyfer 2019-20 i gefnogi gwasanaethau niwroddatblygiadol. Rydym hefyd yn edrych ar opsiynau i gynnal dadansoddiad manwl o'r galw am wasanaethau niwroddatblygiadol a'r capasiti ar eu cyfer ar draws y byrddau iechyd. Bydd hyn yn helpu i gynllunio gwelliannau gan fod y gwasanaeth wedi bod yn weithredol ers 2 flynedd erbyn hyn. Bydd y gwaith hwn yn adeiladu ar adolygiad Uned Gyflawni'r GIG o ofal sylfaenol CAMHS.

O ran gwaddol Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, mae tipyn o waith wedi'i wneud dros yr haf, yn unol â'r hyn a gynlluniwyd gan y rhaglen a gan swyddogion. Rwy'n cydnabod y cynnydd a wnaed gan y rhaglen a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar wasanaethau. Ar y sail honno, fel y gwyddoch, rwyf wedi cytuno 'mewn egwyddor' y byddwn yn cefnogi rhaglen wedi'i haddasu, ond rwy'n aros am gynnig terfynol gan y Rhaglen. Bydd yr ymateb, yr wyf yn disgwyl ei dderbyn ddiwedd mis Hydref, yn cynnwys y cyfraniadau gan y Grŵp Cyfeirio Arbenigol a'r Bwrdd Rhaglen ehangach. Yna byddaf mewn sefyllfa i gytuno ar fanylion y rhaglen derfynol.

Yn y cyfamser, mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r trefniadau etifeddol **drafft** gan gynnwys pob un o feysydd blaenorol Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.

Maes Gwaith **Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc - Rhaglen Estynedig**	**Cyfrifoldeb** **(yn amodol ar gytundeb â Bwrdd y Rhaglen a rhanddeiliaid)**	**Atebolrwydd**
Cymorth Cynnar a Chefnogaeth Estynedig	Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc Cadeirydd y ffrwd waith	Bwrdd Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc Cyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion *Cysylltiedig hefyd/diweddariadau yn adrodd* i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ganlyniadau i Blant
Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (i'w gyhoeddi) Tîm y Comisiynydd Plant	Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc - Bwrdd Rhaglen Llywodraeth Cymru – Gwasanaethau Cymdeithasol *Cysylltiedig hefyd/diweddariadau yn adrodd* i Gyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion a Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ganlyniadau i Blant
Gwasanaethau niwroddatblygiadol nad ydynt yn cyrraedd y "trothwyon presennol"	Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc Grŵp yr Arweinwyr Clinigol	Law yn Llaw at Blant a Phobl – Bwrdd y Rhaglen *Cysylltiedig hefyd/diweddariadau adrodd* i Gyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion
Maes Gwaith **Ar y cyd - Llywodraeth Cymru a Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc**	**Cyfrifoldeb** **(yn amodol ar gytundeb â Bwrdd y Rhaglen a rhanddeiliaid)**	**Atebolrwydd**
Y Grŵp Rhanddeiliaid Ifanc Cenedlaethol	Ar y cyd - Llywodraeth Cymru (Tîm Dull Ysgol Gyfan) a Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc	Llywodraeth Cymru - Addysg
CAMHS	Dan arweiniad is-grŵp bwrdd y Rhwydwaith Iechyd Meddwl Pob Oed Cefnogir gan Law yn Llaw at Blant a phobl Ifanc	Cadeirydd – Rhwydwaith CAMHS ac Anhwylderau Bwyta Llywodraeth Cymru *Cysylltiedig hefyd/diweddariadau adrodd* i Gyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion
Y gweithlu, addysg a datblygu	Dan arweiniad Addysg a Gwella Iechyd Cymru Cefnogir gan Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc	Addysg a Gwella Iechyd Cymru / Llywodraeth Cymru *Cysylltiedig hefyd/diweddariadau adrodd* i Gyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion
Gwasanaethau Niwroddatblygiadol (o fewn	Grŵp yr Arweinwyr Clinigol	Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)

y trothwy presennol) gan gynnwys ALN, LD, IAS	Llywodraeth Cymru – Dan gyd-arweiniad Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Cymdeithasol	
Maes Gwaith Llywodraeth Cymru	**Edrych i'r Dyfodol Cyfrifoldeb**	**Atebolrwydd**
Dull ysgol gyfan	Llywodraeth Cymru (Tîm Dull Ysgol Gyfan)	Cyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion
Trosglwyddiadau gofal gan gynnwys oedran, traws-sector a thrawsffiniol	Llywodraeth Cymru – Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed	Llywodraeth Cymru (Iechyd Meddwl a'r Gyfarwyddiaeth Grwpiau Agored i Niwed) *Cysylltiedig hefyd/diweddariadau adrodd* i Gyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion
Glasbrint gofal diogel traws-sector (gan gynnwys gofal cymhleth)	Llywodraeth Cymru – Dan gyd-arweiniad Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyfarwyddwyr (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) a goruchwylir gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Ganlyniadau i Blant *Cysylltiedig hefyd/diweddariadau adrodd* i Gyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion

Rwy'n rhagweld y cytunir ar yr estyniad i Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc tan fis Mawrth 2021. Fodd bynnag, bydd hyn yn cynnwys darpariaeth i barhau hyd at fis Mawrth 2022, ar yr amod bod y llywodraeth newydd yn cytuno.

Ar ôl i'r rhaglen gael ei haddasu, bydd rhaid iddi gynnwys trefniadau llywodraethu ac adrodd clir gan gynnwys, er enghraifft, drefniadau ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer y Dull Ysgol Gyfan. Byddaf yn ystyried y trefniadau hyn wrth gytuno ar fanylion terfynol y rhaglen estynedig.

Mewn perthynas â rhan 2 o'ch llythyr dilynol a'r argymhellion mewn perthynas â'r dull ysgol gyfan, rydym yn credu ein bod yn gwneud cynnydd da yn y maes hwn ac yn y meysydd penodol a godwyd gennych yn eich llythyr – cynnydd mewn perthynas â hyfforddi staff ysgol; datblygu'r fframwaith ysgolion a rhoi'r canllaw ar hunanladdiad a hunan-niwed ar waith.

Fel rhan o'r £2.5m o gyllid y cytunwyd arno yn y flwyddyn bresennol i gefnogi'r gwaith ysgol gyfan, rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i dargedu cymorth ar nifer o feysydd â blaenoriaeth sy'n cefnogi rhaglen waith yr ysgol gyfan. Mae hyn yn cynnwys gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau cwnsela statudol, hyfforddi athrawon a staff eraill mewn ysgolion ar sicrhau bod eu hiechyd meddwl eu hunain ac iechyd meddwl y plant yn dda; a darparu ymyriadau lles meddyliol penodol mewn ysgolion. Mae cyfanswm o £1.5m o'r cyllid sydd ar gael wedi cael ei gynnig i awdurdodau lleol ar gyfer y gwaith hwn.

Mewn perthynas â hyfforddiant, bydd y ffocws ar wella dealltwriaeth athrawon a staff eraill mewn ysgolion (o staff uwch-reoli i staff mewn swyddi is) o'u llesiant emosiynol a meddyliol eu hunain, yn ogystal â llesiant meddyliol y plant. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu canllawiau arferion da i gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion yn seiliedig ar ddarparu hyfforddiant o dan gynlluniau peilot mewngymorth ysgolion CAMHS. Bydd y canllawiau'n cynnwys gwybodaeth am yr hyn y mae athrawon a staff eraill mewn ysgolion yn ei ddweud y mae angen iddynt ei wybod, deilliannau dysgu a'r rhaglenni a'r ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth a all fynd i'r afael â'r rhain.

Hefyd, rydych chi'n ymwybodol o'n tystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Mehefin, ein bod yn bwrw ymlaen â thrafodaethau â phrifysgolion ynghylch y potensial o ddatblygu modiwlau hyfforddi athrawon cychwynnol ar ddatblygiad y plentyn, lles emosiynol a meddyliol. Mae prifysgolion wedi croesawu'r dull hwn ac, fel y nodir yn y dystiolaeth, y bwriad yw sicrhau bod y modiwlau hyn ar gael ar gyfer y myfyrwyr a fydd yn dechrau ar y cwrs ym mis Medi 2020. Wrth i'r gwaith fynd rhagddo, byddwn yn edrych i ba raddau y gall y modiwlau gael eu mabwysiadu gan y rheini sydd eisoes yn athrawon fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Mewn perthynas â'r fframwaith ysgolion, dywedon yn y Pwyllgor y byddai gennym ddrafft ar gael ar gyfer ymgynghoriad erbyn diwedd y flwyddyn. Dros gyfnod yr haf, mae swyddogion wedi bod yn gweithio i ddwyn ynghyd yr holl dystiolaeth a'r sylwadau a ddarparwyd gan randdeiliaid i lunio drafft cyntaf o'r ddogfen. Mae hyn yn cynnwys sylwadau gan y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, grŵp yr ydych yn rhan ohono ac a ystyriodd amlinelliad o'r fframwaith yn ei gyfarfod diwethaf. Mae drafft wedi'i ddosbarthu erbyn hyn i'r Grŵp Cyfeirio ac i randdeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys rhanddeiliaid sy'n cynrychioli athrawon. Ystyriodd y Grŵp Rhanddeiliaid ar 7 Hydref y ddogfen ac mae wedi'i wahodd i gyflwyno sylwadau ac awgrymu diwygiadau. Y bwriad yw y bydd ail fersiwn yn cael ei darparu i aelodau Grŵp y Gweinidogion wneud sylwadau arno, cyn cwblhau'r ddogfen yn derfynol ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol.

O ran ein gwaith mewn perthynas ag atal hunanladdiad a hunan-niwed mewn ysgolion, hoffem ddiolch i chi a'r Pwyllgor am eich hymrwymiad i'r mater pwysig hwn. Rhoddwyd croeso cynnes i'r canllawiau ar gyfer ysgolion pan gafodd ei lansio ar Ddiwrnod Atal Hunanladdiad y Byd ar 10 Medi yn swyddfa'r Samariaid yng Nghaerdydd, digwyddiad arall yr oeddech chi’n bresennol ynddo. Fel y nodir yn ein tystiolaeth i'r Pwyllgor, rydym yn awyddus i ddatblygu'r maes hwn i gefnogi athrawon, myfyrwyr a phobl eraill sy'n gweithio gyda phlant. Mae swyddogion yn trafod â'r Athro Ann John a Phrifysgol Abertawe, i ddatblygu gwaith ar ddeall ymyriadau gan wylwyr yn well, a hefyd ymatebion sy’n dangos empathi i negeseuon gan bobl sydd mewn gofid ac sy’n cael eu targedu gan ddulliau seiberfwlio ar gyfryngau cymdeithasol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyd-lunio â phlant a bydd yn arwain at becyn adnoddau, wedi'i anelu'n benodol at bobl ifanc i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, a'u cefnogi mewn perthynas â'r mater pwysig hwn. Rydym wrthi'n aros am rhagor o wybodaeth gan yr Athro John i gefnogi'r cynnig ac rydym yn gobeithio cyhoeddi'r gwaith yn ffurfiol cyn diwedd y flwyddyn.

Byddwn yn parhau i adrodd ar gynnydd drwy Gyd-grŵp y Gweinidogion sy'n cyfarfod nesaf ar 4 Tachwedd.

Yn olaf, bydd y Pwyllgor yn ymwybodol ein bod ni wedi rhoi blaenoriaeth i wella iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yn y trydydd *Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl,* y cynllun olaf o'i fath. Daeth yr ymgynghoriad ar y cynllun i ben ar 31 Awst ac roedd y rhan fwyaf o'r adborth a gafwyd gan randdeiliaid o blaid y pwyslais a roddir yn y cynllun ar wella iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Disgwyliaf gyhoeddi'r cynllun yn ddiweddarach eleni.

Rydym yn nodi'r argymhellion pellach a wnaed gan y Pwyllgor yn ei lythyr ar 8 Awst 2019, ac mae llawer ohonynt yn ymwneud ag argymhellion sydd eisoes wedi'u gwneud. Rydym yn gobeithio bod yr wybodaeth ychwanegol hon, ynghyd â'r diweddariadau yr ydym eisoes wedi'u darparu, yn sicrhau'r Pwyllgor o'r cynnydd a wneir i roi ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Cadernid Meddwl y Pwyllgor ar waith.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

CYPE(5)-30-19 - Papur i'w nodi 4

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-L/JM/0747/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

24 Hydref 2019

Annwyl Lynne,

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod ichi am y Cyfarwyddydau diwygiedig ar gyfer darparu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i Gymru.

Mae Cyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) (Diwygio) 2019 wedi'u cyhoeddi dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, fel y'i diwygiwyd gan Ran 9 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a daethant i rym ar 1 Hydref 2019.

Mae'r Cyfarwyddydau hyn yn diwygio'r prif Gyfarwyddydau (Cyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) 2015) i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gyfeirio

(i) manylion darpar fabwysiadwyr pan fyddant wedi'u cymeradwyo; a
(ii) manylion plant y mae'r awdurdod lleol wedi'i awdurdodi i'w rhoi i'w mabwysiadu

at Gofrestr Mabwysiadu Cymru o fewn un mis, yn hytrach nag o fewn tri mis fel yn flaenorol.

Mae hyn yn gweithredu elfennau perthnasol Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru WG36071 (Rheoliadau i gyflwyno proses gymeradwyo dau gam i fabwysiadwyr), a gyhoeddwyd ar 3 Hydref 2018.

Yn Gywir

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

CYPE(5)-30-19 - Papur i'w nodi 5

Anfonwyd drwy e-bost at:
Lynne Neagle AC
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

24 Hydref 2019

Annwyl Lynne

Dirwyn cymwysterau Sylfaen (Ôl-16) a Chenedlaethol (Ôl-16) y Dystysgrif Her Sgiliau i ben

Yr wyf yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi bod Cymwysterau Cymru wedi penderfynu, mewn cytundeb â CBAC a Llywodraeth Cymru, y bydd dau o'r pedwar cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau sydd ar gael yn dod i ben y flwyddyn nesaf.

I'ch atgoffa, y pedwar cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau (THS) sydd ar gael ar hyn o bryd yw:

Cymhwyster THS	**Pryd a ble y'u hastudir (yn nodweddiadol)**
THS Sylfaen/Cenedlaethol	Ynghyd â TGAU, gan ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 mewn ysgolion.
THS Sylfaen (Ôl-16)	Ynghyd â chymwysterau eraill lefel 1 gan ddysgwyr ôl-16 yn y chweched dosbarth ac mewn colegau.
THS Cenedlaethol (Ôl-16)	Ynghyd â chymwysterau eraill lefel 2 gan ddysgwyr ôl-16 yn y chweched dosbarth ac mewn colegau.
THS Uwch	Ynghyd â Safon Uwch a chymwysterau eraill lefel 3 yn y chweched dosbarth ac mewn colegau.

Y ddau gymhwyster fydd yn dod i ben yw'r Dystysgrif Her Sgiliau Sylfaen (Ôl-16) a'r Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol (Ôl-16).

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynigion ar gyfer gwella dyluniad y ddau gymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau sy'n weddill. Byddwn yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r cymwysterau hyn yn 2020.

Nid ydym o'r farn y bydd dod â chymwysterau'r Dystysgrif Her Sgiliau ôl-16 i ben yn peryglu anghenion rhesymol dysgwyr. Gall dysgwyr nad ydynt yn cyflawni o leiaf un o gydrannau'r cymhwyster Tystysgrif Her Sylfaen/Cenedlaethol yn yr ysgol, ail-wneud cydrannau o'r cymhwyster hwnnw mewn lleoliadau ôl-16, os dymunant wneud hynny.

Bydd lleihau nifer y gwahanol gymwysterau'r Dystysgrif Her Sgiliau yn ei gwneud yn haws codi ymwybyddiaeth ac egluro manteision y ddau gymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau sy'n weddill a Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol.

Byddwn yn cyfleu'r penderfyniad hwn heddiw drwy flog (ynghlwm) ar ein gwefan. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at randdeiliaid allweddol i'w hysbysu o'r penderfyniad.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i chi. Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu â mi (emyr.george@qualificationswales.org).

Yn gywir

Emyr George
Cyfarwyddwr Polisi a Diwygio Cymwysterau

Blog Tystysgrif Her Sgiliau - Hydref 2019

Hwb i Sgiliau'r Dyfodol

Dros y misoedd diwethaf rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried sut i wella cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau (THS) Uwch a Sylfaen/Cenedlaethol. Rydyn ni hefyd wedi bod yn meddwl am yr ystod o gymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau (y cymwysterau sydd wrth wraidd Bagloriaeth Cymru) sydd ar gael.

Rhywbeth nad yw llawer o bobl yn ymwybodol ohono yw bod pedwar cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau gwahanol ar gael ar hyn o bryd. Gall hyn ei gwneud hi'n anos esbonio beth yw Bagloriaeth Cymru a sut mae'r THS yn cyd-fynd â hi, yn enwedig gan mai dim ond un o nifer o gymwysterau yw'r THS sy'n rhan o ddyfarniad Bagloriaeth Cymru.

Y pedwar cymhwyster THS sydd ar gael ar hyn o bryd yw:

Cymhwyster THS	**Pryd a ble yr astudir (fel arfer)**
THS Sylfaen / Cenedlaethol	Ochr yn ochr â TGAU, gan ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 mewn ysgolion.
THS Sylfaen (Ôl-16)	Ochr yn ochr â chymwysterau lefel 1 eraill gan ddysgwyr ôl-16 mewn chweched dosbarth a cholegau.
THS Cenedlaethol (Ôl-16)	Ochr yn ochr â chymwysterau lefel 2 eraill gan ddysgwyr ôl-16 mewn chweched dosbarth a cholegau.
THS Uwch	Ochr yn ochr â Safon Uwch a chymwysterau lefel 3 eraill mewn chweched dosbarth a cholegau.

Mae gwahaniaeth mawr yn nifer y dysgwyr sy'n astudio pob un o'r pedwar cymhwyster hyn. Er enghraifft, mae'r THS Uwch yn cael ei astudio gan oddeutu 12,000 o ddysgwyr bob blwyddyn, sef tua thri chwarter yr holl ddysgwyr sy'n astudio Safon Uwch a chymwysterau lefel 3 eraill mewn colegau a chweched dosbarth. Mae'r THS Sylfaen / Cenedlaethol yn cael ei astudio gan fwy na dwbl y nifer sy'n astudio'r un Uwch, gyda bron pob dysgwr Blwyddyn 11 yng Nghymru yn cwblhau'r cymhwyster mewn ysgolion. Dyna pam ein bod ni’n neilltuo amser ac ymdrech i'w gwneud nhw cystal ag y gallan nhw fod.

Ar y llaw arall, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n astudio'r THS Sylfaen (Ôl-16) a THS Cenedlaethol (Ôl-16). Efallai bod yna lawer o resymau am hyn, ond gallai hyn fod oherwydd bod dysgwyr bellach yn gallu ail-sefyll cydrannau fersiwn cyfnod allweddol 4 mewn lleoliadau ôl-16.

Rydym wedi penderfynu, gyda chytundeb gan CBAC a Llywodraeth Cymru, y bydd y THS Sylfaen (Ôl-16) a'r THS Cenedlaethol (Ôl-16) yn dod i ben y flwyddyn nesaf (o 31 Awst 2020). Mae hyn yn golygu mai'r dysgwyr a ddechreuodd ar eu cyrsiau ar gyfer y cymwysterau hyn ym mis Medi eleni fydd y garfan olaf i ddilyn y ddau gymhwyster hyn. Rydym wedi ysgrifennu at randdeiliaid allweddol i'w hysbysu o'r penderfyniad hwn.

Bydd lleihau nifer y cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau o bedwar i ddau yn helpu i wneud Bagloriaeth Cymru yn symlach i'w deall a'i hegluro. A bydd hefyd yn caniatáu inni ganolbwyntio ein hymdrechion i gryfhau cynllun y cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/ Sylfaen ac Uwch.

Rydym yn gwneud cynnydd cyson ar ddatblygu syniadau ar gyfer newidiadau posibl. Eleni byddwn yn parhau i weithio ar y cyd ag ymarferwyr ac eraill i fireinio ein ffordd o feddwl. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer newidiadau posibl yn 2020. Fel bob amser, byddwn yn parhau i'ch hysbysu trwy ein blog rheolaidd.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon